

COGYDD SOUS
Theatr Clwyd
Disgrifiad Swydd

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Gweithredol (y Cyfarwyddwr Artistig – Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol – Liam Evans-Ford) yn creu'r newidiadau diwylliannol a gweithredol pwysicaf yn hanes y 42 o flynyddoedd ers i'r theatr fod yn gweithredu, cyfnod a fydd yn aildiffinio ac yn diogelu dyfodol y ganolfan gelfyddydau unigryw a gwerthfawr hon – y theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw yng Nghymru.

Mae Theatr Clwyd yn cynhyrchu mwy nag wyth sioe y flwyddyn - yn y Saesneg yn bennaf, ond hefyd yn y Gymraeg - ac mae'n cyflwyno rhywfaint o'r gwaith hwn ar daith yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Mae ganddi raglen waith hynod lwyddiannus ar gyfer a gyda phobl ifanc sy'n cael ei chreu yn yr adeilad a'r tu allan iddo, a theithiau i ysgolion lleol, yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r adeilad hefyd yn croesawu amrywiaeth o berfformiadau drama, dawns, cerddoriaeth a chelf teithiol ar gyfer pob oed, rhaglen gynhwysfawr o ffilmau a rhaglen gymunedol brysur. Hefyd mae'r sefydliad ar flaen y gad gyda gwaith cysylltiedig â'r celfyddydau a lles.

Rydym wedi gwneud datblygiadau mawr i newid siâp ein rhaglennu; rydym wedi ymrwmo i osod profiad yr ymwelydd wrth galon ein penderfyniadau; rydym wedi dechrau cynyddu ein digwyddiadau masnachol; rydym wedi cymryd y camau cyntaf tuag at ddyfnhau ein perthynas â'n cymuned; rydym wedi dechrau datblygu ein cynigion ategol ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i farchnata ein gwaith a'n hadeilad yn fwy strategol ac effeithiol. Hefyd rydym wedi cyflwyno astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ailddatblygiad cyfalaf mawr ac wedi derbyn cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer bwrw ymlaen â'r cynlluniau i Ddylunio a Datblygu.

Theatr Clwyd yw'r unig theatr gynhyrchu yn y DU sy'n eiddo i awdurdod lleol o hyd. Gyda throsiant o £5.3m yn 2016-17, fe'i cefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir y Fflint a'i gweithgareddau ei hun. Cynhelir rhyw 2,115 o ddigwyddiadau unigol yn y theatr bob blwyddyn, gydag oddeutu 200,000 o bobl yn eu mynychu, a 50,000 o aelodau cymunedol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau allgymorth. Yn ystod 2016/17, gwelodd 220,000 yn rhagor o bobl sioeau gan Theatr Clwyd mewn llefydd eraill yn y DU.

Crynodeb o'r Swydd

COGYDD SOUS

Yn gyfrifol am: AMH.

Yn atebol i'r: Cogydd

Y manteision yn cynnwys:

Cyflog: TC05 £17,391-£18,870

Gwyliau: 23 diwrnod ac 8 diwrnod o wyliau cyhoeddus

Cyfnod rhybudd:

Yr Adran Gweithrediadau

Mae'r Adran Gweithrediadau yn Theatr Clwyd yn gyfrifol am swyddogaethau logistaidd yr adeilad. Yn rhan greiddiol o hyn mae hybu a chynnal profiad rhagorol i'r gynulleidfa a sicrhau bod Theatr Clwyd yn amgylchedd croesawus a diogel i'r cyhoedd, i artistiaid sy'n ymweld ac i staff.

Pwrpas y Swydd

Gweithio'n agos dan gyfarwyddyd y Cogydd i baratoi bwyd rhagorol ar gyfer Theatr Clwyd drwy gyfrwng bwydlenni arloesol ac amrywiol gan ddefnyddio dulliau coginio o bob math ac mewn amrywiaeth o steiliau, i greu a chyflwyno prydau bwyd mewn ffordd ddychmygus. Bydd hyn yn cynnwys yr amrywiaeth eang o fwyd a gynigir, o wasanaeth y caffï i fwffe, digwyddiadau undydd a chiniawau ar raddfa fawr.

Prif gyfrifoldebau

- Cynnal safonau ac ansawdd bwyd cyson ym mhob ardal ac ym mhob cam cynhyrchu
- Bod yn gyfrifol am redeg y gegin o ddydd i ddydd yn absenoldeb y Cogydd. Bydd deiliad y swydd yn cyfeirio unrhyw benderfyniadau a chymhlethdod sydd y tu hwnt i reolaeth ei swydd i sylw'r Rheolwr Bwyd a Diod
- Cynnal a chadw'r holl offer yn yr adran arlwyo gyda gofal a sylw priodol a rhoi gwybod am unrhyw nam ar yr offer i'r Cogydd neu'r Rheolwr Bwyd a Diod
- Os yw hynny'n briodol, datblygu perthnasoedd gyda chyflenwyr lleol a chynhyrchwyr annibynnol ledled Cymru er mwyn datblygu ymhellach y ddarpariaeth bwyd unigryw yn Theatr Clwyd.

Iechyd a Diogelwch

- Cymryd rhan yng ngweithdrefn HACCP yn unol â system rheoli diogelwch bwyd y theatr.
- Gwybodaeth am yr holl ddeddfwriaeth iechyd a Diogelwch bresennol a'r ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd.
- Cadw at safonau glendid a sicrhau glanweithdra priodol yn y gegin gyfan, gan gynnwys yr ardal paratoi bwyd, yr offer coginio, y cownteri, y silffoedd, y celfi a'r manau storio.

Manyleb y Person

Hanfodol

- Profiad ymarferol clir o weithio fel cogydd sous neu Gynorthwy-ydd Cegin mewn bwyty proffesiynol.

- Gwybodaeth am dueddiadau a datblygiadau presennol yn niwydiant bwyd y DU a dealltwriaeth ohonynt.
- Dawn a brwdfrydedd dros goginio gyda chynhwysion ffres a safonol.
- Gallu ymdopi dan bwysau mewn ffordd effeithlon a digynnwrf.
- Sylw rhagorol i fanylder.
- Sgiliau rhyngbersonol da a gallu cyfathrebu gyda staff bar a gweini.
- Dealltwriaeth o gynllunio bwydlenni a datblygu'r gwasanaeth arlwyo.
- Tystysgrif hylendid bwyd ganolraddol.
- Sgiliau rhifedd cadarn.

Dymunol

- Profiad o weithio mewn theatr neu sefydliad celfyddydol.
- Trwydded yrru lawn a glân.
- Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.

Rydym yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwmo i gynyddu nifer ein cyflogeion dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd byddwn yn cefnogi cyflogeion newydd a phresennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.

Bydd trefniadau gweithio rhan amser, rhannu swydd a hyblyg yn cael eu hystyried.